

Dydd Iau, Rhagfyr 25
yr Ofalaeth
am 10.00 o'r gloch
yn Capel Coch

Gwasanaeth Undebol Naw Llith a Charol Deiniolen

Pnawn Sul, Rhagfyr 28
am 3.00 o'r gloch
yn Eglwys Llandinorwig

Newid trefn

Bydd un newid bach yn nhrefn oedfaon Capel Coch o ddechrau Ionawr ymlaen. Gan y bydd yr Ofalaeth yn ymestyn i gynnwys dwy eglwys arall, ni fydd y Gweinidog yn gwasanaethu yn Capel Coch ar bedwerydd nos Sul y mis.

Felly, oherwydd y newid anorfod hwn yn nhrefniadau'r Ofalaeth, ni fydd oedfa yn Capel Coch ar y pedwerydd Sul o'r

mis, gan gychwyn yn Ionawr 2015.

Bydd ymestyn yr Ofalaeth yn golygu y bydd y Gweinidog yn colli un oedfa nos Sul y mis yn Neiniolen hefyd. Ni fydd yn pregethu yn Neiniolen ar nos Sul gyntaf y mis o hyn allan.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Fercher, Rhagfyr 17: Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Rhagfyr 21: Oedfa am 10.00 dan arweiniad y Gweinidog. Yna, Oedfa Nadolig y Plant am 3.30 o'r gloch.

CAPEL COCH A NANT PADARN



Y mis nesaf - Deiniolen

Rhagfyr 14

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Trefor Lewis

Rhagfyr 21

10.00 a.m. - Y Gweinidog
3.30 p.m. - Gwasanaeth Nadolig dan arweiniad plant yr Ysgol Sul Croeso cynnes i bawb

Rhagfyr 28

3.30 p.m. - Gwasanaeth Nadolig Undebol Naw Llith a Charol yn Eglwys Llandinorwig

Y mis nesaf - Llanberis

Rhagfyr 14

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI (Oedfa Undebol Naw Llith a Charol yn Capel Coch)

Rhagfyr 21

10.00 a.m. - Y Parchg Gwynfor Williams
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Gwasanaeth Nadolig dan arweiniad plant yr Ysgol Sul Croeso cynnes i bawb

Rhagfyr 28



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 617 – Dydd Sul, 14 Rhagfyr, 2014

Barod?

Daeth haen o eira dros gopa'r Wyddfa, ac ar y radio fore Gwener clywyd bod eira yng nghyffiniau Cerrigydrudion yn golygu bod rhaid wrth ofal arbennig ar y ffyrdd yn yr ardal honno.

Bu llawer o ddyfalu ers tro pa dywydd sydd o'n blaen y gaeaf hwn. Cawsom dywydd mor fwyn am fisoedd cyn iddi oeri'n ddiweddar. Gawn ni eira eleni neu beidio? Pan ddaw'r eira, neu os daw'r eira, mae'n beryg na fyddwn yn barod amdano. Mewn gwledydd eraill, fel Canada a gwledydd Sgandinafia, sy'n cael eira trwm yn rheolaidd, bydd pobl yn gwbl barod amdano ac wedi paratoi ar ei gyfer bob blwyddyn. Ond am nad ydym ni'n cael eira bob gaeaf, nid ydym yn gwneud yr un paratoadau. Mae hynny'n wir nid yn unig am yr awdurdodau cyhoeddus ond amdanom ni fel unigolion hefyd.

Faint ohonom, er enghraifft, sydd heb estyn y *wellingtons* a'r rhaw eira a'r brwsh bras heb sôn am y sled a'r hen got a'r menyg trwchus y byddwn eu hangen ar gyfer chwarae yn yr eira, neu ar gyfer clirio'r eira oddi ar lwybr yr ardd? Fe gawn ein cynghori i gadw rhaw eira a blanced a lamp a rhywbeth i'w fwyta yng nghist y car, rhag ofn i ni gael ein dal mewn eira. Faint ohonom sydd wedi rhoi'r pethau hynny yn y car yn barod?

Cyfle i baratoi ar gyfer y Nadolig yw tymor yr Adfent, ac mae'n siwr y bydd yr Ŵyl yn golygu mwy i ni os byddwn wedi paratoi ymlaen llaw amdani ac wedi edrych ymlaen at ddathlu geni Iesu Grist ein Gwardedwr. Mae atgoffa ein hunain yn gyson o fawredd y babi a aned ym Methlehem yn amlwg yn un ffordd o baratoi at ddathlu'r Nadolig yn iawn. Mae meddwl am bobl eraill, a gwneud ymdrech i gefnogi'r gwaith a wneir gan wahanol elusennau i weini ar bobl sydd mewn trafferthion ar drothwy'r Ŵyl hefyd yn baratoad da ar gyfer dathlu dyfodiad Iesu i'n byd.

Ond er y pwyslais mawr a rydd Tymor yr Adfent ar baratoi ar gyfer dyfodiad Iesu, tybed na fedrwn ni droi'r cyfan ben i waered? Yn lle sôn am baratoad ar gyfer dyfodiad Iesu, oni allwn sôn am ei ddyfodiad ef fel y paratoad? Mae dyfodiad Iesu'n baratoad ar ein cyfer, yn yr ystyr ei fod yn ein paratoi neu yn ein gwneud ni'n barod ar gyfer rhai pethau. I ddechrau felly, wrth i ni dderbyn Iesu Grist yn Waredwr fe'n gwneir yn barod i fyw gan fod gennym bwrpas newydd i'n bywydau, sef dilyn Iesu a'i wasanaethu, ac addoli Duw sydd wedi dangos y fath gariad tuag atom. Ond fe'n gwneir yn barod hefyd i farw gan fod derbyn Iesu yn Geidwad yn golygu nad oes arnom mwyach ofn marwolaeth am ei fod ef yn cynnig bywyd tragwyddol i bawb sy'n credu

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed i Dduw fendithio ein haddoliad wrth i ni nesáu at y Nadolig.

Bydd yr Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch a chynhelir oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Parchg Trefor Lewis, Hen Golwyn. Estynnwn groeso iddo nôl i Ddeiniolen unwaith eto, a diolch iddo am ei wasanaeth.

Byddaf fi'n arwain yr oedfa yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch a chynhelir yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Am 5.00 o'r gloch cynhelir Gwasanaeth Nadolig Undebol Naw Llith a Charol, lle cawn gwmni eglwysi'r pentref. Roedd yr hon yn Eglwys Sant Padarn y llynedd, ac mae'n braf cael croesawu pawb i Gapel Coch heno. Bydd elfennau o oedfa MOLI yn yr oedfa hon hefyd. Gwneir casgliad at Gynllun Efe.

Byddaf yn arwain yr oedfa yn Rehoboth am 2.00 o'r gloch.

Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd. Mae Mrs Doris Roberts, Fron Oleu, Llanberis yn Ysbyty Gwynedd ac anfonwn ein cofion ati.

Oedfa Nadolig Plant Deiniolen

Cynhelir Gwasanaeth Nadolig Plant Deiniolen **am 3.30 o'r gloch** brynhawn |Sul nesaf, Rhagfyr 21.

Sylwch ar y newid amser os gwelwch yn dda. Gobeithio'n fawr y bydd modd i gymaint â phosib ohonoch ddod i'r oedfa hon i ddathlu'r Nadolig gyda'n gilydd. Ni chynhelir oedfa wedyn.

Capel Coch

Bydd llyfrau ariannol Capel Coch yn cau ddydd Sul, Rhagfyr 28, 2014. Bydd pob cyfraniad a dderbynnir wedyn yn cael ei roi yng nghyfrifon y flwyddyn 2015. Gofynnwn i bob cyfraniad ar gyfer 2014 gael ei wneud erbyn y diwrnod hwnnw os gwelwch yn dda.

Cyfraniadau

Diolch am bob cyfraniad ariannol at waith yr eglwysi yn ystod y flwyddyn. Apeliwn ar aelodau eglwysi eraill yr Ofalaeth yn Neiniolen a Nant padarn a Rehoboth i helpu'r trysoryddion trwy ofalu bod gweddill eu cyfraniadau ar gyfer eleni y cael eu gwneud erbyn diwedd y flwyddyn neu os y bosibl erbyn Sul olaf y flwyddyn. Byddai hynny yn help mawr.

CIC

Cynhaliwyd CIC yn Capel Coch nos Wener diwethaf a diolch unwaith eto i Andrew, Gwenno a Dafydd am arwain y cyfan.

Noson Yr Hwylfan

Mae Andrew wedi trefnu noson yn Yr Hwylfan yng Nghaernarfon i griwiau CIC yr ardal nos Iau yr wythnos hon, Rhagfyr 18 rhwng 6.30 a 8.30 o'r gloch. Cofiwch roi eich enw i Andrew mor fuan â phosibl gan mai'r 40 cyntaf fydd yn medru dod. Dyma weithgarwch olaf y tymor. Bydd y cyfarfodydd arferol yn ail ddechrau yn y flwyddyn newydd

Cymdeithas Undebol Llanberis

Nos Fawrth diwethaf, cynhaliwyd Oedfa Garolau Cymdeithas Undebol Llanberis dan arweiniad Mrs Gwenno Pritchard a'r Gweinidog. Cafwyd cyfuniad o garolau a darlleniadau'n ymwneud â dyfodiad y Gwaredwr i'n byd.

Diolchwyd gan Mr Colin Jones. Ar ôl yr oedfa, cafwyd cyfle i sgwrsio o amgylch y byrddau dros banded a mins pei a diolch i bawb a fu'n paratoi'r danteithion.

Dosbarth Beiblaidd

Cynhelir Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch nos Fercher, Rhagfyr 17.

Byddwn yn parhau i feddwl am yr hyn a ddywed y Beibl am y Meseia wrth i ni fynd ymlaen at benillion nesaf y garol 'Ar gyfer heddiw'r bore' gan Eos Iâl.

Cyfarfod Gweddi Efe

Cynhelir y Cyfarfod Gweddi nesaf yn nhy Andrew Settatree, Cartref, Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch fore Gwener, Rhagfyr 19.

Croeso i unrhyw un ddod atom, ac nid oes rhaid poeni am ddod bob wythnos os nad yw'n hwylus wrth gwrs.

Parti Nadolig

Cynhelir Parti Nadolig Ysgol Sul Capel Coch nos Fawrth, Rhagfyr 23. Byddwn yn cychwyn am 5.30 o'r gloch. Mae Sion Corn wedi addo dod acw i'n gweld eleni eto.

Nadolig yr Ofalaeth

Gwasanaeth Undebol Naw Llith a Charol Llanberis

HENO, nos Sul, Rhagfyr 14
am 5.00 o'r gloch
yn Capel Coch
(fel rhan o oedfa MOLI)

Oedfa Nadolig Plant Deiniolen Dydd Sul, Rhagfyr 21 am 3.30 o'r gloch

yn Ebeneser
Sylwch ar yr amser os gwelwch
yn dda.

Oedfa Nadolig Plant Capel Coch

Nos Sul, Rhagfyr 21
am 5.00 o'r gloch

Cymun Bore Nadolig